# Rhagarweiniad i arian a banciau

## Beth yw arian?



Mae arian yn ffordd o gyfnewid, mesur gwerth ac yn ddull o gynilo.

Mae pobl wedi cyfnewid erioed. Fodd bynnag, cyn bod arian roedd hyn yn golygu dod o hyd i rywun oedd eisiau'r hyn a oedd gennych chi **ac** oedd yn meddu ar yr hyn yr oeddech chi ei eisiau, h.y. yn fodlon cyfnewid. Er enghraifft, pe bai gennych chi ormodedd o wenith, ond dim afalau, byddai'n rhaid i chi ddod o hyd i rywun a oedd ag afalau i'w sbario, ac yr oedd angen gwenith arnynt.

Mae arian, ar ffurf darnau arian neu arian papur (neu mewn rhai cymdeithasau, cregyn neu wartheg), yn ei gwneud hi'n bosibl i'r person sydd â gwenith i'w werthu, hyd yn oed os nad oes gan y prynwr afalau. Yna mae gwerthwr gwenith yn chwilio am afalau i'w prynu, gan ddefnyddio'r arian a enillwyd trwy werthu'r gwenith.

Mae arian yn gweithio oherwydd bod pobl yn ei dderbyn fel rhywbeth sy'n cynrychioli gwerth penodol, er nad oes iddo **yn ei hanfod** y gwerth hwnnw.[i]

## Beth yw banciau?




Dechreuodd bancio tua'r 15$^{fed}$ ganrif pan ddechreuodd gofaint aur storio aur ar ran eu cleientiaid. Byddai cwsmeriaid yn derbyn tystysgrifau, a ddaeth yn ddull o dalu, fel y defnyddir arian papur y dyddiau hyn.

Ar y dechrau, byddi'r gofaint aur ond yn cyflwyno cymaint o dystysgrifau ag yr oedd ganddynt aur ar eu cyfer. Fodd bynnag, daethant i sylweddoli ei bod yn annhebygol y byddai eu cleientiaid i gyd yn mynnu eu haur yn ôl ar yr un pryd, ac felly byddent yn cyflwyno mwy o dystysgrifau na faint o aur a oedd ganddynt mewn gwirionedd - dyma oedd sail bancio preifat modern.[ii]

**Wyddech chi?**
Daw'r term 'banc' o'r gair Lladin 'banco', sy'n golygu 'mainc', gan gyfeirio at y meinciau y byddai benthycwyr arian yn eistedd arnynt.

Byddai meinciau benthycwyr arian oedd yn mynd yn fethdalwyr weithiau'n cael eu malurio gan y bobl.

### Bancio a'r Ymerodraeth Brydeinig



Adeiladwyd llawer o'r Ymerodraeth Brydeinig, a chyfoeth Prydain heddiw, ar y fasnach mewn caethweision. Mae hyn oherwydd twf mewn sefydliadau ariannol, a adeiladwyd i ddelio â chyfnewid cynnyrch a phobl yn ystod yr 17$^{eg}$ ganrif.

Byddai masnachwyr yn gwneud arian wrth brynu am brisiau isel a gwerthu am brisiau uchel. Ond doedden nhw ddim yn derbyn yr elw hwn tan ar ôl y mordeithiau hir (chwe mis!) pan fyddai'r nwyddau'n cael eu gwerthu.

Yn y cyfamser, roedd yn rhaid i fasnachwyr dalu am y fordaith, gan gynnwys y llong a'r morwyr. Roedd angen system ar gyfer credyd arnyn nhw - bancio - er mwyn iddyn nhw allu gwneud hyn i gyd cyn iddyn nhw werthu eu nwyddau a gwneud elw.[iii] [iv]


# Banciau heddiw

Heddiw, mae banciau wrth galon ein heconomi. Maent yn rym dylanwadol mewn cymdeithas, gan eu bod yn darparu cyllido a benthyciadau i gwmnïau, prosiectau ac unigolion, er mwyn ysgogi gweithgaredd economaidd a chynhyrchu elw.

Er ein bod ni i gyd yn defnyddio banciau, ydyn ni wir yn gwybod beth maen nhw'n ei wneud?

***Tanwyddau ffosil***

**Beth ydyn nhw:** Mae llosgi tanwydd ffosil - glo, olew a nwy - yn allyrru carbon deuocsid a nwyon tŷ-gwydr eraill sy'n dal gwres yn atmosffer y ddaear, gan arwain at newid hinsawdd fyd-eang. Mae hyn yn creu effeithiau enfawr i fywyd ar y ddaear, yn enwedig bywydau'r rhai lleiaf cyfrifol am yr argyfwng.



**Sut:** Mae 35 o fanciau byd-eang wedi ariannu tanwydd ffosil gyda £1.9 triliwn ers Cytundeb Paris, cytundeb i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, yn 2015. Mae hyn wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Os yw pethau'n parhau fel hyn, bydd ariannu tanwydd ffosil yn cyrraedd £700 biliwn y flwyddyn erbyn 2030.

**Gallwch ganfod mwy:** Banking on Climate Change / Funding Climate Chaos


**Pethau i fod yn wyliadwrus ohonynt**

***Ffermio ffatri***

**Beth yw hyn:** Mae amaethyddiaeth ddiwydiannol yn un o'r prif gyfranwyr at yr argyfwng hinsawdd, gan achosi nifer o broblemau eraill, yn cynnwys datgoedwigo ar raddfa eang, creulondeb i anifeiliaid, colli bywyd gwyllt, materion iechyd, a manteisio'n annheg ar ffermwyr ac unrhyw gymunedau brodorol sy'n byw ar y tir.

**Sut:** Mae benthyciadau gwerth oddeutu £120 biliwn wedi llifo o dros 200 o fanciau i bymtheg-ar-hugain o gorfforaethau cig a llaeth mwyaf y byd, sydd gyda'i gilydd yn allyrru mwy nag economïau'r Almaen, Canada neu'r DU.

**Gallwch ganfod mwy:** Feedback, Butchering the Planet



***Arfau***

**Beth yw hyn:** Ers 2000, amcangyfrifir bod 60% o farwolaethau cysylltiedig â'r gwrthdaro yn y byd wedi bod yn y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica, tra bod trais yn Irac, Libya, Syria ac Yemen yn peri i filiynau o bobl orfod gadael eu cartrefi bob blwyddyn.

**Sut:** Mae gan 10 banc Ewropeaidd rai o'r buddsoddiadau uchaf mewn 11 o'r cwmnïau arfau byd-eang sy'n ymwneud â'r rhyfeloedd hyn, gan ddarparu hyd at £20.7 biliwn mewn cyllido.



**Gallwch ganfod mwy:** Ethical Consumer / Facing Finance

***Osgoi trethi***



**Beth yw hyn:** Gall osgoi treth gynnwys busnesau'n symud elw o gwmpas er mwyn talu llai o drethi. Yn 2017, amcangyfrifwyd bod osgoi trethi, yn fyd-

***Camdrin hawliau dynol***



**Beth yw hyn:** Mae ein hawliau dynol yn cynnwys pethau fel rhyddid i lefaru, rhyddid rhag camwahaniaethu a'n hawl i addysg. Gall banciau weithredu'n groes i'r

eang, yn colli dros £360 biliwn y flwyddyn i wledydd - arian a allai fod wedi cael ei wario ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol fel colegau ac ysbytai!

**Sut:** Mae banciau nid yn unig yn benthyca i gwmnïau sy'n defnyddio strategaethau osgoi talu treth, ond maent hefyd wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â helpu pobl i osgoi trethi.

**Gallwch ganfod mwy:** [Ethical Consumer] / [BBC]


hawliau hyn yn uniongyrchol trwy eu harferion eu hunain, neu gallant gyfrannu at gamdriniaeth trwy roi cefnogaeth ariannol i gwmnïau eraill sy'n camdrin hawliau dynol.

**Sut:** Canfu adroddiadau bod banciau a sefydliadau ariannol y DU yn dal cyfranddaliadau gwerth dros £10.8 biliwn mewn cwmnïau sy'n gwerthu arfau, offer milwrol a thechnoleg i Israel - a ddefnyddir i amddifadu Palestiniaid o'u hawliau dynol.

**Gallwch ganfod mwy:** [BankTrack] / [War on Want]

Dim ond **rhai** o'r problemau mwyaf yw'r rhain, ac mae yna lawer o rai eraill, e.e. ariannu profion ar anifeiliaid, mwyngloddio, technolegau gwyliadwriaeth, gweithgareddau gwleidyddol a charchardai (gweler yr astudiaeth achos isod).

## Astudiaethau achos

| Ariannu'r argyfwng hinsawdd | Cynnal hiliaeth strwythurol yng ngharchardai'r UD | Arfogi'r rhai sy'n camdrin hawliau dynol |
| --- | --- | --- |
| Darparodd **Barclays** bron i £91 biliwn i gwmnïau tanwydd ffosil rhwng diwedd 2015, pan lofnodwyd Cytundeb Hinsawdd Paris, a 2019. Mae hyn yn eu gwneud y 7fed banc ffosil gwaethaf yn y byd a'r gwaethaf yn Ewrop.<br><br>**HSBC** yw'r 12fed banc gwaethaf yn fyd-eang, gyda £67 biliwn wedi'i fuddsoddi mewn tanwydd ffosil. Mae'n parhau i gyllido pwerdai glo **newydd** yn Ne-ddwyrain Asia, er gwaethaf rhagamcanion y gallai 70,000 o bobl farw bob blwyddyn oherwydd llygredd glo yno.[v]<br> | *CoreCivic* a *GEO Group* yw'r darparwyr mwyaf o garchardai preifat a chanolfannau cadw mewnfudwyr yn yr UD.<br><br>Mae'r diwydiannau hyn wedi [effeithio'n anghymesur ar Americanwyr Croenddu] ac wedi arwain at driniaeth greulon o fewnfudwyr.<br><br>Mae *GEO Group* hefyd yn gyfrifol am ganolfannau cadw mewnfudwyr yn y DU.<br><br>Yn 2018, darparodd **Barclays, HSBC** a **Grŵp NatWest** wasanaethau ariannol ar gyfer *CoreCivic* a *GEO Group*.[vi]<br> | Mae rhyfeloedd a gwrthdaro yn aml yn arwain at ddinistrio cartrefi a bywoliaeth miloedd o bobl ddiniwed. Mae terfysg o'r fath hefyd yn cyfrannu at yr [argyfwng ffoaduriaid].<br>Mae gan fanciau fel **Lloyds, Santander** a **Barclays** fuddsoddiadau gwerth biliynau o bunnoedd mewn cwmnïau arfau sy'n allforio i Saudi Arabia a'r Emiradau Arabaidd Unedig. Mae'r gwledydd hyn wedi bod yn rhan o'r ymgyrch i fomio Yemen, gan gynnwys tiroedd ffermio ac ysbytai, gan adael tua 24 miliwn o bobl angen cymorth dyngarol.[vii]<br><br>Mae **HSBC** hefyd wedi cael eu [targedu] am eu [cysylltiadau] gyda chwmnïau sy'n cyflenwi offer milwrol i Israel, a ddefnyddir wedyn i barhau â meddiannu tiroedd Palestina, sy'n [cael ei ystyried yn anghyfreithlon] gan arbenigwyr hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig.[viii]<br> |

## Strwythurau perchnogaeth




Fel rheol mae gan sefydliadau ariannol sy'n delio â rhoi arian ar gadw a benthyca arian un o ddau fodel perchnogaeth: maen nhw naill ai'n eiddo i'r rhai sy'n eu defnyddio, neu'n eiddo i fuddsoddwyr preifat.

Mae llawer o fanciau'r stryd fawr yn eiddo i'r un cwmni neu grŵp o gwmnïau, e.e. mae Lloyds, Halifax a Bank of Scotland i gyd yn rhan o Grŵp Bancio Lloyds.




**Perchnogaeth gydweithredol neu "gydfuddiannol"**

Mae cymdeithasau adeiladu ac undebau credyd, yn eu hanfod, yn eiddo i'r rhai sy'n eu defnyddio, h.y. eu "haelodau". Mae hyn yn golygu, yn hytrach na bod buddsoddwyr allanol sy'n ceisio elw yn penderfynu sut mae'r banc yn cael ei redeg, y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth sy'n gwneud y penderfyniadau hynny.



**Nid yw pob banc bach yn gynaliadwy ...**
Mae'n bosib nad yw rhai banciau llai, fel y rhai mwy newydd sy'n seiliedig ar apiau, yn ymwneud ag ariannu diwydiannau amheus fel arfau a thanwydd ffosil. Fodd bynnag, oni bai eu bod yn gweithredu polisïau moesegol cadarn i'w heithrio **nawr**, does dim sicrwydd na fyddant yn gwneud hynny yn y dyfodol os byddant yn tyfu.

# Sut i wneud gwahaniaeth



## Beth i chwilio amdano mewn banc moesegol?

- **Polisïau:** a oes ganddo bolisi moesegol?
- **Buddsoddiadau:** Ble mae'n buddsoddi arian? A oes ganddo broses sgrinio yn nodi pa gwmnïau y bydd yn buddsoddi ynddynt a'r cwmnïau hynny na fydd am ymwneud â nhw?
- **Ymrwymiadau:** A yw'n ymrwymo i weithredu ar y materion hynny sy'n bwysig i chi? A yw ymrwymiadau'n glir, yn fesuradwy ac wedi'u dyddio?

Dylai'r rhan fwyaf o'r wybodaeth hon fod ar gael ar wefan y banc, neu fe allech chi gysylltu â nhw i ofyn am wybodaeth o'r fath.

| Astudiaeth achos: Polisi Moesegol y Banc Cydweithredol (Co-operative) | Astudiaeth Achos: Polisi buddsoddi a thryloywder Banc Triodos |
| --- | --- |
| Mae gan Y Banc Cydweithredol Bolisi Moesegol wedi'i seilio ar bum egwyddor, ac mae tair ohonynt yn cynnwys<br><br>*Gweithle a diwylliant moesegol*<br>• *Mae’r diwylliant yn ein gweithle’n adlewyrchu gwerthoedd a moeseg gydweithredol.*<br>*Bancio moesegol*<br>• *Nid ydym yn darparu gwasanaethau bancio i fusnesau a sefydliadau sy'n gweithredu’n groes i'n Polisi Moesegol.*<br>*Ymgyrchoedd moesegol*<br>• *Rydym yn ymgyrchu dros newid cymdeithasol ac economaidd yn unol â'n gwerthoedd a'n moeseg.* | Mae Banc Triodos yn cyhoeddi manylion ynghylch pob sefydliad y mae'n benthyca iddo, yn ogystal a chwmnïau y mae'n buddsoddi ynddynt. Mae hyn yn flaengar, oherwydd mae gan fanciau enw gwael am fod yn gyfrinachol.<br><br>Mae'r banc hefyd yn gweithredu set o safonau gofynnol, gan amlinellu'n benodol pa feysydd na fydd yn buddsoddi ynddynt.<br><br>Mae'r polisïau hyn hefyd yn cwmpasu dull buddsoddi cadarnhaol y banc, sy’n **canolbwyntio** ar gyllido sectorau cynaliadwy, h.y. rhai sydd â buddion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol gwirioneddol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys cyllido ffermio sy’n gydnaws â natur neu grwpiau cymunedol ar gyfer pobl ifanc. |

## Ai banciau yw'r unig opsiwn?



**Cymdeithasau adeiladu**
Math o sefydliad ariannol yw cymdeithas adeiladu sy'n darparu gwasanaethau bancio a gwasanaethau ariannol eraill i’w aelodau. Yr aelodau sy’n berchen arno.

| Beth sy’n dda am hynny? | Cadwch hyn mewn cof |
| --- | --- |
| Mae’n eiddo i’r aelodau, ac yn cael ei rhedeg er eu budd nhw | Mae’n dal i fod yn ddefnyddiol ystyried polisïau ac ymrwymiadau |
| Does dim cyfranddalwyr | Mae gan gymdeithasau adeiladu ddylanwad enfawr ar y sector tai oherwydd nifer y morgeisi sydd ganddyn nhw ar y cyd. |
| Maen nhw’n tueddu i ganolbwyntio mwy ar y tymor hir | |

| Astudiaeth Achos: Cymdeithas Adeiladu Nationwide |
| --- |
| Cymdeithas Adeiladu Nationwide yw'r gymdeithas adeiladu fwyaf yn y byd, gyda thua 15 miliwn o aelodau. Mae wedi'i lleoli yn y DU ac mae'n cynnig morgeisi yn ogystal â chyfrifon cyfredol a chyfrifon cynilo.<br><br>Mae'n sefydliad “cydfuddiannol”, gan nodi "mae ein cydfuddiant, y ffaith ein bod yn eiddo i'n haelodau ac yn gweithredu er eu budd nhw, yn ein gwneud yn gwbl wahanol i'n cystadleuwyr mawr." |



**Undeb credyd**
Mae [undeb credyd] yn fenter ariannol gydweithredol sy'n darparu gwasanaethau bancio traddodiadol i'w aelodau.

| Beth sy'n dda am hynny? | Cadwch hyn mewn cof |
|---|---|
| Mae'n eiddo i'r aelodau, ac yn cael ei redeg er eu budd nhw | Mae rhai ohonynt yn cynnig gwasanaethau mwy cyfyngedig nag eraill |
| Dim cyfranddalwyr a ffocws ar wasanaethu'r gymuned | |
| Cynhwysiant ariannol: mae undebau credyd fel arfer yn codi cyfraddau llog is ac yn aml byddant yn benthyca i'r rhai a wrthodwyd gan fanciau'r brif ffrwd | Gofyniad "cysylltiad cyffredin" (gweler y blwch isod) |

**Astudiaeth achos: cyfrifon undeb credyd ar gyfer pobl ifanc**

Mae cyfrifon *Engage* yn caniatáu i lawer o aelodau undeb credyd gael mynediad at wasanaethau arferol fel cerdyn debyd, talu trwy ddebyd uniongyrchol neu ddefnyddio ap digidol.

Mae'r opsiynau penodol i bobl ifanc yn cynnwys cyfrif *Engage* cyffredin (16+) a chyfrif *Engage Smartcash* i blant iau (8-16).

Dim ond trwy eich undeb credyd lleol y gellir gwneud cais am y cyfrifon hyn. Mae gan *Engage* ei gyfeiriadur chwilio ei hun, felly hefyd gwefannau eraill fel Find Your Credit Union a Credit U.

**Yr angen am gysylltiad cyffredin**

Un o ofynion undeb credyd yw bod gan aelodau rywbeth yn gyffredin â'i gilydd - a elwir yn "gysylltiad cyffredin".

Mae'r gofyniad am gysylltiad cyffredin yn amrywio ar gyfer pob undeb credyd a gall gynnwys:

- Ardal ddaearyddol, e.e. lle rydych chi'n byw neu'n gweithio
- Swydd, neu gyflogaeth gan sefydliad penodol
- Byw yn yr un cartref ag aelod

## Newid cyfrifon

Eisoes â chyfrif banc, ond ddim yn hyderus eu bod nhw'n diwallu eich safonau moesegol?

Gallwch chi newid cyfrifon banc yn hawdd rhwng y mwyafrif o fanciau neu gymdeithasau adeiladu gan ddefnyddio'r Gwasanaeth Newid Cyfrif Cyfredol (CASS). Maent wedi ysgrifennu canllaw syml sy'n amlinellu'r camau y mae angen i chi eu cymryd.

Os ydych chi am newid i undeb credyd neu fanc neu gymdeithas adeiladu **heb** ddefnyddio'r CASS, yn gyntaf bydd angen i chi siarad â'r darparydd rydych chi'n dymuno symud ato i drafod y ffordd hawsaf y gallwch chi newid.

---

## Gadael eich hen fanc

Pan fyddwch chi'n newid, gall fod yn ddefnyddiol dweud wrth eich hen fanc **pam** rydych chi'n gadael. Mae egluro eich bod yn gwrthod bancio gydag, er enghraifft, sefydliad sy'n cyllido'r diwydiant tanwydd ffosil yn ei gwneud yn gliriach iddynt, a gallai eu hannog i newid eu harferion.

Mae un cwsmer yn gadael yn cael rhywfaint o effaith, ond mae llawer o gwsmeriaid yn gadael **gyda'i gilydd** yn gallu sbarduno newid systemig dros amser. Gallai grŵp o fyfyrwyr fod yn bwerus yn hyn o beth! Er enghraifft, dechreuodd rhai myfyrwyr foicotio Banc Barclays ym 1969 oherwydd cysylltiadau'r banc â'r gyfundrefn apartheid yn Ne Affrica ar y pryd. Cyfrannodd y pwysau hwn at i'r banc ddod â'r cysylltiadau hynny i ben yn 1986.

# Beth arall allaf i ei wneud?



Nid symud cyfrifon banc i adlewyrchu ein gwerthoedd yw'r unig ffordd i ddylanwadu ar arferion banciau. Gallwch hefyd gael effaith trwy ymgysylltu â phobl a sefydliadau eraill o'ch cwmpas.

## Camau posibl eraill i'w cymryd

**Lobïo rhieni neu ofalwyr i newid**
O ystyried y bydd ganddyn nhw fwy o arian na phobl ifanc fel arfer, gallai siarad â nhw ynglŷn â hyn gael mwy o effaith - yn enwedig os ydych chi'n eu lobïo i newid i ddarparydd mwy moesegol.

**Lobïo eich coleg neu chweched dosbarth**
Bydd gwthio sefydliadau i fancio'n fwy moesegol yn cael effaith sylweddol ar y ffordd y mae banciau'n cael eu rhedeg, gan y byddant yn aml eisiau busnes sefydliadau mwy, gan gynnwys eich coleg neu'ch chweched dosbarth.

**Ymgyrchu dros gael gwell addysg ariannol**
Gallwch alw ar eich coleg neu chweched dosbarth i gynnwys ystyriaethau moesegol mewn unrhyw addysg ariannol y maen nhw'n ei darparu i fyfyrwyr. Siaradwch â'ch prifathro a'ch penaethiaid adran, yn ogystal â'ch undeb myfyrwyr neu wasanaeth gyrfaoedd os oes gennych chi un.

**Ymuno â'r rhai sy'n galw am newid ehangach**
Mae yna broblemau enfawr eraill gyda'n system ariannol y tu hwnt i fancio personol yn unig. Chwiliwch am fwy o wybodaeth am ymgyrchoedd eraill sy'n mynnu system decach a mwy cynaliadwy, fel *Positive Money*, sydd â grwpiau lleol ledled y DU.


---

## Adnoddau pellach

**Bank on our Future**
Rhwydwaith o wahanol grwpiau sy'n gwthio banciau i roi'r gorau i ariannu tanwydd ffosil. Maen nhw hefyd yn argymell gweithredoedd pellach y gallwch chi ymgymryd â nhw.

**Ethical Consumer**
Mae'n darparu offer ac adnoddau, fel graddio cwmnïau yn ôl eu safonau moesegol, er mwyn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr wneud dewisiadau moesegol mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys bancio.

**Banking 101**
Cwrs fideo chwe-rhan am ddim i'ch helpu chi i ddeall yn well sut mae arian a banciau'n gweithio.



---

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau, awgrymiadau neu os ydych chi'n fyfyriwr sydd am chwarae rhan fwy blaenllaw yn yr ymgyrch, e-bostiwch aqeel.kapasi@sos-uk.org.
Ysgrifennwyd cynnwys y canllaw hwn at ddibenion gwybodaeth yn unig, ac ni ddylid ei ystyried yn gyngor ariannol.
Diweddarwyd y canllaw diwethaf: 18 Mawrth 2021
*Mae'r gwaith hwn wedi'i drwyddedu o dan Drwydded Ryngwladol Creative Commons Attribution-ShareAlike 4.0*

---

[i] *What is Money, Positive Money*; cyrchwyd 17 Mawrth 2021, https://positivemoney.org/2011/05/what-is-money/
[ii] *Our Money – Towards a New Monetary System*, Frans Doorman, 2015, http://positivemoney.org/wp-content/uploads/2015/10/Our-Money-06-4-2015-A5-Download-Positive-Money-28-8-2015-2.pdf
[iii] *Slavery and the Building of Britain*, BBC, 17 Chwefror 2011; cyrwchwyd 17 Mawrth 2021, https://www.bbc.co.uk/history/british/abolition/building_britain_gallery_02.shtml
[iv] *Slave trade and the British economy, BBC Bitesize*; cyrchwyd 17 Mawrth 2021, https://www.bbc.co.uk/bitesize/guides/zc92xnb/revision/7
[v] Gwefan *Bank on our Future*; cyrchwyd 17 Mawrth 2021, https://bankonourfuture.uk/banks/
[vi] *Financing racism in US private prisons, Ethical Consumer,* 11 Medi 2020; cyrchwyd 17 Mawth 2021, https://www.ethicalconsumer.org/money-finance/financing-racism-us-private-prisons
[vii] *Banks profiting from the arms trade to the Middle East and North Africa, Ethical Consumer*, 11 Medi 2020; cyrchwyd 17 Mawrth 2021, https://www.ethicalconsumer.org/money-finance/banks-profiting-arms-trade-middle-east-north-africa
[viii] *Stop Arming Israel, War on Want*, 27 Gorffennaf 2017; cyrchwyd 18 Mawrth 2021, https://waronwant.org/news-analysis/stop-arming-israel